

## Wrth iddynt wneud cynnydd

## Dwli Dwl

## Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Y gweithgareddau ar 'Dwli Dwl – Wrth iddynt ddatblygu', ond gan ddiolli'r gwrthrychau i'w rhoi mewn 3 neu fwy o gategoriâu, e.e. yn ôl lliw neu faint. Dylent weithio gyda phartner neu mewn grŵp bach i gwblhau ras gyfnewid
- Ailadrodd y gweithgaredd uchod – gan baru rhifau a lluniau â'i gilydd, e.e. rhoi rhif 5 gyda llun o bum pysgodyn, ac ati
- Ailadrodd y gweithgaredd uchod – gan baru llythrennau a geiriau syml â'i gilydd, e.e. pa air mae'r llythyren 'a' yn cyd-fynd ag ef – 'pen' neu 'cath'?
- Ailadrodd y gweithgaredd uchod – gan ddiolli darnau jig-so i gwblhau jig-sos syml. Rhannwch sawl jig-so rhwng y grwpiau, a gofynnwch i'r plant redeg ag un darn i'r man lle mae'r darn yn perthyn, yn eu barn nhw, fel bod pob pâr/grŵp yn cyfrannu at gwblhau pob jig-so. Gosodwch lun o'r jig-sos gorffenedig wrth ymyl y man cychwyn, a llun arall ym mhob un o'r ardaloedd dynodedig
- Ailadrodd y gweithgaredd uchod – gan llynnu gleiniau ar lasyn
- Ailadrodd unrhyw un o'r gweithgareddau uchod – gan osod gwrthrychau mewn pram/troli/cert a thynnu'r gert i ardal ddynodedig, dadlwytho'r gwrthrychau, a chwblhau'r dasg/taflu gwrthrychau i blentyn eu dal
- Gosod gwrthrychau mewn beic/tractor/trelar – gan reidio'r cerbyd a thynnu'r gwrthrychau i ardal ddynodedig, dadlwytho'r gwrthrychau a chwblhau'r dasg/taflu gwrthrychau i blentyn eu dal
- Cicio gwahanol beli i le penodol, rhedeg ar eu hâl i'w codi/mofyn, eu cario a'u gosod mewn ardal ddynodedig neu daflu/cicio peli at darged neu blentyn, a dychwelyd i'r man cychwyn



## Cyfleoedd i:

- ddatblygu rheolaeth gynyddol a sgiliau cydsymud wrth redeg o amgylch rhwystrau
- archwilio tasgau syml (corfforol a gwybyddol) gan ddefnyddio amrywiaeth o offer am gyfnodau hirach
- gweithio'n ddiogel mewn lle penodol
- datblygu cymhwysedd wrth drafod beiciau a cheir

## Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd
- Dewis, dethol, datrys, meddwl, cyfrifo, didoli, paru, llynnu
- Cario, gosod, rhoio, taflu, cicio, rhedeg ar ôl, dilyn, codi, dal
- Cerdded, rhedeg, llwynogod, neidio, hercian, neidio pellter, tynnu
- Ras gyfnewid, gwaith fîm, cymryd eu tro

## Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Bagiau ffa, teganau meddal
- Amrywiaeth o beli, gan gynnwys peli cadu'n heini
- Coetiau
- Balŵns
- Cylchoedd, conau marcio, rhaffau sgipio
- Pramiau, certi, troliâu
- Lasys/gleiniau llynnu
- Cardiau Adnoddau (rhifau, llythrennau, lluniau, problemau)

## Cwestiynau

- Pa reolau rydych chi wedi eu llunio?
- Beth mae'n rhaid i chi ei wneud i sicrhau bod pawb yn ddiogel pan fyddwch chi'n cicio'r bêl?
- Beth sydd fwyaf anodd ynghylch y gweithgaredd hun?
- Sut gallwch chi a'ch partner helpu eich gilydd i wella wrth wneud y gweithgaredd hun?

## Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio mewn 'gerddi'

## A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu rheolaeth gynyddol a sgiliau cydsymud wrth redeg o amgylch rhwystrau?
- Yn archwilio tasgau syml (corfforol a gwybyddol) gan ddefnyddio amrywiaeth o offer am gyfnodau hirach?
  - Yn gweithio'n ddiogel mewn lle penodol?
- Yn datblygu cymhwysedd wrth drafod beiciau a cheir?

weithiau

gan amlaf

### Anogwch y plentyn i:

- ymarfer pob agwedd cyn chwarae'r gêm
- didoli gwrthrychau i'w rhoi mewn llai o gategoriâu
- cymryd amser i feddwl a thrafod yr atebion i'r broblem cyn dechrau rhedeg
- gweithio mewn 'gardd' ar ei ben ei hun i ddechrau
- reidio beiciau tair olwyn i ddechrau, neu sgrialu ar feic sydd heb bedalau

### Anogwch y plentyn i:

- archwilio llwybr hirach, mwy cymhleth i'r ardal ddynodedig, e.e. gan ddefnyddio cerrig camu, trawst cydbwyso, parasiwtiau
- taflu neu gicio gwrthrychau at dargedau bach
- ceisio curo'i sgôr/amser gorau

### Cyfleoedd campus

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Darllen – defnyddio eu gwybodaeth am gysylltiadau llythrennau a symbolau synau i ddarllen geiriau a dod o hyd i ystyr
- Datblygiad Mathemategol: cyfrif, trefnu, adio a thynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych. Didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddangos y meini prawf a ddefnyddiwyd ganddynt